**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.***

**WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* 18.05.18**

## WYTHNOS CYMRU CŴL *WEEK.*

Mae hi wedi bod yn wythnos gofiadwy iawn yn yr ysgol yr wythnos hon. Mae pawb wedi cael profiadau hynod o ddifyr a gwahanol ac wedi mwynhau y cyfan yn fawr iawn. Roedd y Pnawniau Cymdeithasol yn hynod o lwyddiannus a braf iawn oedd gweld pawb a ddaeth draw. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Pnawniau ac am brynu tocynnau raffl ac am y gwobrau hael tuag at y raffl honno. Bydd ail ran y raffl yn cael ei dynnu yn ystod diwrnod mabolgampau Blynyddoedd 1-6 ar Fehefin 5ed. Llwyddwyd i godi £412 tuag at yr ysgol trwy gyfrwng yr ymgyrch arbennig hon hyd yma.

*This week has been a memorable one for everyone in school. Everyone has proved new and interesting experiences and have very much enjoyed all of them. The Social Afternoons were extremely successful and it was lovely to see everyone that came along. Many thanks to everyone for their support to these events and for purchasing raffle tickets and for the valuable prizes contributed to the raffle. The second half of the raffle will be drawn during the Years 1-6 sports on June 5th. £412 was raised towards school by means of these events.*

Diolch i bawb am eu hymdrech ar gyfer cystadleuaeth cynllunio plât Cymreig. Roedd pob un ymgais yn werth ei gweld. Diolch o galon i gwmni KTL Contracting am eu haelioni yn noddi'r gwobrau hyfryd ar gyfer y gystadleuaeth. Enillwyr y gwahanol adrannau addysgu oedd:

Meithrin/Derbyn – *Nursery/Reception* – Oscar Brant, Blwyddyn/*Year* 1 a 2 – Isla Jones, Blwyddyn/*Year* 3 a 4 – Sarah Brady, Blwyddyn/*Year* 5 a 6 – Nia Lois Jones.

*Many thanks to everyone for their effort in the competition to design a Welsh plate. Each and every attempt was really worth seeing. Many thanks to the KTL Contracting company for their generosity in sponsoring the lovely prizes for the competition. The overall winners of the various categories are shown above.*

Roedd nifer fawr o wobrau eraill ar gyfer y rhai ddaeth yn agos i'r brig yn y gwahanol adrannau. – *There were also a large number of prizes for those who came close in the various categories.*

Edrychai pawb yn hardd iawn yn eu dillad coch, gwyn a gwyrdd ddoe a mwynhawyd disgo o gerddoriaeth Gymraeg gan bob adran addysgu. Daeth grŵp o'n cyn ddisgyblion i roi adloniant i ddisgybion Cyfnd Allweddol 2 hefyd. Bu Mr C. Ashford yn rhoi sgwrs i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 ynglyn â thîm pêl droed Cymru bore ddoe hefyd.

*Everyone looked wonderful dressed up in red, white and green clothes yesterday, and the various teaching groups enjoyed a disco of Welsh modern songs. A group of our ex pupils*

*came to present modern songs to Key Stage 2 pupils. Mr C. Ashford came to give a talk to Years 1 and 2 pupils regarding the Welsh football team yesterday morning also.*

Heddiw, mae holl ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn cymryd rhan ym mabolgampau ysgolion Cymraeg Sir y Fflint. Gweithgaredd hwyliog fydd hwn ac yn gyfle gwych i'r disgyblion hyn ddod i adnabod disgyblion o wahanol ysgolion Cymraeg y sir.

*Today, all of the Years 3 and 4 pupils are  participating in the sports for the Flintshire Welsh medium primary schools. This is a fun activity and will be a wonderful opportunity for these pupils to get to know pupils from the county's other Welsh medium schools.*

Bu dau gynrychiolydd o fyd busnes yn siarad gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y bore 'ma – Anwen Baglin o gwmni Mati a Meg a Bryn Edmunds o fanc HSBC. Mwynhaodd y disgyblion gyfranogi yn y weithgaredd hon. Bu'r disgyblion hyn hefyd yn ymweld â busnesau'r dref fel rhan o thema'u dosbarthiadau am yr wythnos.

*Two representatives from the world of business came to speak to Years 5 and 6 pupils this morning – Anwen Baglin from Mati a Meg and Bryn Edmunds form the HSBC bank. The pupils very much enjoyed participating in this activity.  These pupils also visited local businesses during the week as part of their chosen theme.*

Bu pob adran addysgu yn canolbwyntio ar thema ganolog yn ystod yr wythnos sef fel a ganlyn – Sêr y Teledu (Meithrin a Derbyn), Arwyr Byd Chwaraeon (Blwyddyn 1 a 2), Cerddoriaeth Gymraeg (Blwyddyn 3 a 4) a'r Gymraeg mewn Busnes (Blwyddyn 5 a 6).

*Every teaching department worked on specific themes during the week, which were as follows – Television Stars (Nursery and Reception), Sporting Heroes (Years 1 and 2), Welsh music (Years 3 and 4) and Welsh in Business (Years 5 and 6).*

## GWASANAETH - *SERVICE*

Daeth Mrs Mitton a Miss Swan i gyflwyno gwasanaeth fel rhan o raglen Agor y Llyfr i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen fore Llun. Mwynhaodd y disgyblion hyn y cyflwyniad yn fawr.

*Mrs Mitton and Miss Swan came to conduct a service with the Foundation Phase pupils, as part of the Opening of the Book programme for the Foundation Phase pupils on Monday morning. These pupils very much enjoyed the presentation.*

## ARIAN CINIO A FFIOEDD Y CLWB – *DINNER MONEY AND CLUB FEES.*

Gan fod yr ysgol yn cau am wyliau hanner tymor ddydd Gwener nesaf, Mai 25ain., gofynnir i chi sicrhau fod unrhyw arian sy'n ddyledus yn cael ei dalu cyn y dyddiad hwn yn ddi-ffael os gwelwch yn dda.

*As school will be closing for the half term holiday next Friday, May 25th. you are asked to ensure that any outstanding money due for dinner or Club fees are paid in full by that date without fail please.*

## HELFA GLIWIAU – *QUIZ TRAIL.*

Cofiwch gysylltu gyda'r ysgol i dderbyn y daflen gliwiau a chyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau y daith ddiddorol hon o gwmpas Yr Wyddgrug. Dychweler y taflenni yn ôl i'r ysgol erbyn dydd Iau, Mehefin 14eg. os gwelwch yn dda. Mae gwobrau hael iawn wedi'u cynnig ar gyfer y raffl fydd yn cynnwys enwau'r rhai fydd wedi ymgeisio. Caiff y raffl honno ei thynnu yn ystod yr Hwyl Haf y diwrnod canlynol – ddydd Gwener, Mehefin 15fed. Mae hwn yn weithgaredd teuluol hyfryd iawn a'r tâl cystadlu yw £5 am bob ffurflen a lenwir.

*Remember to contact the school to obtain the quiz trail form and instructions for completing the interesting walk around Mold. The forms need to be returned to school by Thursday, June 14th. please. There will be generous prizes for the raffle which will be the names of the ones who have participated. This raffle will be drawn at the Summer Fun event the following day – Friday, June 15th. This is indeed a lovely family event and the fee is £5 per completed form.*

## DYDDIADUR FFRINDIAU GLANRAFON – *FRIENDS OF GLANRAFON DIARY.*

I ddilyn, ceir rhestr o ddyddiadau perthnasol ar gyfer Ffrindiau Glanrafon o rwan i ddiwedd y tymor:

*To follow is a list of relevant dates for activities organised by the Friends of Glanrafon committee from now to the end of term:*

08.05.18 Pwyllgor i wneud y trefniadau terfynol ar gyfer yr Hwyl Haf – *Committee to make the final arrangements for Hwyl Haf* – 3.30 p.m.

14.06.18 Dyddiad cau i dderbyn taflenni yr Helfa Gliwiau – cofiwch ofyn am daflen yn yr ysgol – *Closing date for the receipt of the Quiz Trail leaflet – remember to ask for the leaflet from school.*

15.06.18 Hwyl Haf – *Summer Fun event* – 4-6.30 p.m.

17.07.18 Disgo diwedd y flwyddyn ysgol – *End of school year disco* – 3.15 – 4 p.m. – disgyblion y Cyfnod Sylfaen – *Foundation Phase pupils,* 4.15 – 5.15 p.m. – disgyblion Cyfnod Allweddol 2 – *Key Stage 2 pupils.*

## DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

**21.05.18** Sgwrs ar ofalu am ddannedd i ddisgyblion y Meithrin – *A talk on caring for teeth for the Nursery pupils.*

| | |
|---|---|
| **21.05.18** | Blwyddyn 5 a 6 i wylio tîm pêl droed Cymru yn ymarfer yn Wrecsam – *Years 5 and 6 pupils to watch the Wales football team coaching in Wrexham.* |
| **23.05.18** | Cystadleuaeth rygbi tag cymysg yr Urdd *mixed tag rugby competition.* |
| **23.05.18** | Cyngerdd Uned y Blynyddoedd Cynnar – *Early Years Unit's concert* – 9.30 a.m. |
| **24.05.18** | Cyflwyniad gan Ensemble Llinynnol Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint – *Presentation by the Flintshire Music service's string ensemble.* |
| **24.05.18** | Twrnament criced yr Urdd yn Wrecsam – *Urdd cricket tournament in Wrexham.* |
| **24.05.18** | Cyflwyniad gan Sbectrwm i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 3 – *Presentation by Sbectrwm for Years 1 and 3 pupils.* |
| **25.05.18** | Cwmni Tempest yn tynnu lluniau dosbarthiadau a grwpiau yr ysgol – *Tempest company to take class and group photos.* |
| **25.05.18** | Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.* |
| **28&29.05.18** | Rhai disgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanelwedd – *Some of the pupils representing the school at the Urdd National Eisteddfod in Builth Wells.* |
| **04.05.18** | Ysgol yn ail ddechrau wedi'r gwyliau hanner tymor – *School re-opens following the half term holiday.* |